

1. Ni chaniateir dod ag alcohol i mewn i'r neuadd.
2. Ni chaiff pobl ddod i'r digwyddiad os bydd stiwardiaid yn tybio bod rhywun dan ddylanwad alcohol neu sylwedd anghyfreithlon.
3. Efallai ni chaniateir i berson ddod yn ôl mewn i'r neuadd nes bod egwyl addas yn y rhaglen.
4. Ni ellir cyfnewid tocynnau na'u had-dalu'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Er mwyn osgoi amheuaeth, os yw deiliad tocyn yn dewis peidio â defnyddio tocyn ar gyfer sesiwn benodol, ni roddir ad-daliad.
5. Er mwyn diogelu rhag twyll, ni roddir tocynnau eraill yn lle'r rhai gwreiddiol ac nid ad-delir prisiau tocynnau os caiff tocyn ei anghofio, ei gollu, ei ddwyn, ei ddifwyno, ei ddifrodi neu os na fydd ar gael.
6. Yn yr holl ddigwyddiadau, rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw berson, neu symud unrhyw berson o'r lleoliad, lle credwn, yn ôl ein barn resymol, y gall y person beryglu diogelwch neu ddiogeledd y digwyddiad neu fwynhad gan eraill o'r digwyddiad.
7. Mae DINAS A SIR ABERTAWÉ yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.
8. Mae DINAS A SIR ABERTAWÉ yn cadw'r hawl i newid y rhaglen a hysbysebwyd.
9. Mae'n rhaid i ddeiliad tocynnau gydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau a roddir gan bersonél a stiwardiaid y digwyddiad pan fyddant yn y lleoliad.
10. Mae deiliaid tocynnau'n rhyddhau DINAS A SIR ABERTAWÉ o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a allai ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
11. Dylai deiliaid tocynnau ddeall y gall amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr effeithio ar drefniadau'r digwyddiad, ac y gallai hyn olygu gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd. Ni fydd gan DDINAS A SIR ABERTAWÉ unrhyw atebolrwydd i ddeiliad tocynnau o ran y fath oedi, gohirio neu ganslo.
12. Mae deiliaid tocynnau'n rhoi caniatâd i gael eu ffilmio, i gael eu lluniau wedi tynnu a'u recordio ac yn deall efallai y gallai ffotograffau, ffilmiau neu recordiadau gael eu darlledu, eu cyhoeddi, eu trwyddedu neu eu defnyddio am byth (heb daliad).
13. Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngrwyd neu fel arall.
14. Bydd gan DDINAS A SIR ABERTAWÉ yr hawl i gopïo a defnyddio delweddau, fideos neu recordiadau clywedol a grëir gan ddeiliaid tocynnau ac yr ystyrir eu bod yn briodol, a threfnu eu bod ar gael, heb orfod talu na chydabod mai deiliad y tocyn greodd y deunydd hwnnw.
15. Ni all deiliaid tocynnau gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae'r trefnwyr yn ystyried ei bod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, farchnata unigol neu grŵp). Mae DINAS A SIR ABERTAWÉ yn cadw'r hawl i wrthod mynediad, neu ofyn i rywun adael y lleoliad os nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn.